# Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

**2015 dccc 3**

*Cynghorydd Cenedlaethol*

## 20 Cynghorydd Cenedlaethol

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi person fel Cynghorydd Cenedlaethol.

(2) Mae'r person a benodir yn Gynghorydd Cenedlaethol yn dal ei swydd yn unol â thelerau'r penodiad.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru dalu treuliau, tâl cydnabyddiaeth a lwfansau mewn cysylltiad â'r Cynghorydd Gweinidogol.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru dalu—

(a) pensiynau mewn cysylltiad â phersonau a fu'n Gynghorydd Gweinidogol, a

(b) symiau ar gyfer darparu pensiynau neu tuag at ddarparu pensiynau mewn cysylltiad â phersonau a fu'n Gynghorydd Gweinidogol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu i'r Cynghorydd Gweinidogol—

(a) y cyfryw staff, a

(b) y cyfryw adeiladau, cyfarpar a chyfleusterau eraill,

ag y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer arfer swyddogaethau'r Cynghorydd Cenedlaethol.

## 21 Swyddogaethau'r Cynghorydd

(1) Mae'r Cynghorydd Cenedlaethol i arfer y swyddogaethau canlynol, yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru—

(a) cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig (gweler is-adran (2));

(b) darparu cynhorthwy arall i Weinidogion Cymru wrth iddynt ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig;

(c) gwneud gwaith ymchwil mewn perthynas ag ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon, mynd i'r afael â materion cysylltiedig neu ymchwilio i weld a yw cam-drin o unrhyw fath yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag anghydraddoldeb o unrhyw fath rhwng pobl o wahanol ryw, hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;

(d) darparu cyngor a chynhorthwy arall, gyda cydsyniad Gweinidogion Cymru, i unrhyw berson ar faterion sy'n ymwneud ag ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion perthnasol;

(e) cynhyrchu adroddiadau ar unrhyw fater sy'n berthnasol i ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig.

(2) Ystyr "mater cysylltiedig" at ddiben is-adran (1) yw camdriniaeth sydd, ym marn y Cynghorydd Cenedlaethol, yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag anghydraddoldeb o unrhyw fath rhwng pobl o wahanol ryw, hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol.

(3) Os bydd y Cynghorydd Cenedlaethol yn gofyn i awdurdod perthnasol ddarparu gwybodaeth at ddiben arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Cynghorydd, rhaid i'r awdurdod gydymffurfio â'r cais oni fo'r awdurdod yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r awdurdod ei hun, neu

(b) yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer swyddogaethau'r awdurdod.

(4) Rhaid i awdurdod perthnasol sy'n penderfynu peidio â chydymffurfio â chais o dan is-adran (3) hysbysu'r Cynghorydd Cenedlaethol yn ysgrifenedig am y rhesymau dros y penderfyniad.

## 22 Cynllun blynyddol ac adroddiadau blynyddol

(1) Cyn 30 Tachwedd ym mhob blwyddyn ariannol rhaid i'r Cynghorydd Gweinidogol—

(a) paratoi cynllun blynyddol yn nodi sut y mae'r Cynghorydd Gweinidogol yn bwriadu arfer swyddogaethau'r Cynghorydd Gweinidogol yn ystod y flwyddyn ariannol ddilynol, a

(b) cyflwyno'r cynllun blynyddol i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

(2) Rhaid i gynllun blynyddol—

(a) datgan amcanion a blaenoriaethau'r Cynghorydd Gweinidogol ar gyfer y flwyddyn ariannol mae'r adroddiad yn ymwneud â hi;

(b) datgan unrhyw faterion y mae'r Cynghorydd Gweinidogol yn bwriadu adrodd arnynt o dan adran 21(1)(e) yn ystod y flwyddyn honno;

(c) datgan unrhyw weithgareddau eraill mae'r Cynghorydd Cenedlaethol yn bwriadu ymgymryd â hwy wrth arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn honno.

(3) Caiff y Cynghorydd Cenedlaethol ymgynghori ag unrhyw berson wrth baratoi cynllun blynyddol.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo cynllun blynyddol heb addasiadau neu gydag addasiadau y cytunir arnynt gyda'r Cynghorydd Cenedlaethol.

(5) Cyn 30 Medi ym mhob blwyddyn ariannol rhaid i'r Cynghorydd Cenedlaethol yrru adroddiad at Weinidogion Cymru ynghylch y modd yr arferwyd ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

(6) Rhaid i adroddiad blynyddol gynnwys y canlynol—

(a) asesiad o'r graddau y cyflawnwyd amcanion a blaenoriaethau'r Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi;

(b) datganiad o'r materion y mae'r Cynghorydd Cenedlaethol wedi adrodd arnynt o dan adran 21(1)(e) yn ystod y flwyddyn honno;

(c) datganiad o'r gweithgareddau eraill yr ymgymerodd y Cynghorydd Cenedlaethol â hwy wrth arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn honno.

## 23 Cyhoeddi adroddiadau

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi—

(a) pob cynllun blynyddol a phob adroddiad blynyddol a anfonir atynt gan y Cynghorydd Cenedlaethol, a

(b) pob adroddiad a anfonir atynt gan y Cynghorydd Cenedlaethol, os yw'r adroddiad yn cael ei grybwyll mewn cynllun blynyddol a gymeradwywyd.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad a anfonir atynt gan y Cynghorydd Cenedlaethol nas crybwyllir mewn cynllun blynyddol sydd wedi ei gymeradwyo.

(3) Cyn cyhoeddi unrhyw gynllun neu adroddiad, caiff Gweinidogion Cymru hepgor unrhyw ddeunydd ohono y byddai ei gyhoeddi, ym marn Gweinidogion Cymru—

(a) yn annymunol am resymau sy'n ymwneud â diogelwch gwladol,

(b) yn gallu peryglu diogelwch unigolyn, neu

(c) yn gallu niweidio ymchwiliad i drosedd neu erlyniad trosedd.